# TIR COMIN, MEYSYDD TREF A PHENTREF

TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

Sefydlwyd Cofrestrau Tir Comin a Meysydd Tref a Phentref yn gyntaf o dan Ddeddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965. Mae Deddf Tiroedd Comin 2006 yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau cofrestru i barhau i gadw'r gofrestr a sefydlwyd gan y Ddeddf.

Oherwydd Pandemig Coronafeirws, yn anffodus does dim modd i chi archwilio'r Cofrestrau Tir Comin a Meysydd Tref a Phentref ac unrhyw geisiadau mewn perthynas â diwygio'r cofrestrau oherwydd bod y Swyddogion Cymorth Cofrestru Tir Comin yn gweithio gartref.

**Ffoniwch 01495 742655 neu e-bostiwch Julie.Jenkins@torfaen.gov.uk ddydd Mawrth i ddydd Iau i wneud trefniadau amgen.**

## 1. Diwygio'r Gofrestr – Hawliau Tir Comin

1.1 Mae Adran 13 Deddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965 yn rhoi grymoedd cyfyngedig i'r awdurdod cofrestru ddiwygio'r wybodaeth yn y gofrestr.

1.2 Adran Hawliau: pan fo hawliau pori'n cael eu dosrannu, torri, diffodd neu ei rhyddhau, amrywio neu drosglwyddo.

1.3 Pan fydd tir â hawliau atodedig yn cael ei rannu a'i werthu'n ddarnau ar wahân, mae'n rhaid i rai hawliau tiroedd comin gael eu dosrannu ar sail pro-rata yn ôl nifer erwau.

1.4 Mae Adran 9 Deddf Tiroedd Comin 2006 yn gwahardd torri hawliau tiroedd comin (yn amodol ar rai eithriadau) yn ôl-weithredol o 28ain Mehefin 2005.

1.5 Rhaid i gais i ddiwygio Adran Hawliau'r gofrestr gael ei wneud trwy Ffurflen 19 CR statudol, "Cais i ddiwygio cofrestru mewn perthynas â hawl i dir comin".

1.6 Does dim tâl ar hyn o bryd am wneud cais Ffurflen 19.

## 2. Cofrestru Maes Tref neu Bentref 'Newydd'

2.1 Daeth rheoliadau mewn perthynas ag Adran 15 Deddf Tiroedd Comin 2006 i rym yng Nghymru ar 6ed Medi 2007. Cyflwynodd y rheoliadau drefniadau dros dro a ffurflen gais statudol newydd, Ffurflen 44.

2.2 Mae'n rhaid i geisiadau i gofrestru maes tref neu bentref ‘newydd’ gael eu gwneud ar Ffurflen 44 – ‘Cais am gofrestru tir yn Faes Tref neu Bentref’ – a gefnogir gan ddatganiad statudol a thystiolaeth bellach. Mae hyn fel arfer ar ffurf datganiadau tyst.

2.3 Nid oes ffi am wneud cais ar hyn o bryd. Os hoffech wybodaeth bellach, neu os oes gennych unrhyw sylwadau am ein gwasanaeth, danfonwch e-bost at Julie.Jenkins@torfaen.gov.uk neu ffoniwch 01495 742655 Dydd Mawrth i ddydd Iau.

- Rheoliadau Meysydd Tref a Phentref (Datganiadau Perchnogion Tir) (Cymru) (Rhif 2) 2018
- Deddf Tiroedd Comin 2006
- Rheoliadau Meysydd Tref a Phentref (Datganiadau Perchnogion Tir) (Cymru) (Rhif 2) 2018
- 2018 Rhif 1100 (W.230)

## 3. Tâl am Gais

| Y ddarpariaeth y gwneir y cais oddi tani neu ar ei chyfer. | Pwrpas y Cais | Tâl am Gais |
|---|---|---|
| Adran 15A(1) Deddf 2006 | Adneuo datganiad perchennog tir sy'n dwyn i ben unrhyw gyfnod o ddefnydd adloniadol “trwy hawl” ar y tir. Effaith adneuo datganiad gan berchennog tir yw atal defnyddwyr adloniadol o'r tir rhag cyrraedd cyfnod o ddefnydd am 20 mlynedd sy'n ofynnol yn ôl meini prawf cofrestru meysydd tref a phentref newydd | £623.00 |

## 4. Rheoliadau Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cywiro, Tir Comin Heb ei Gofrestru neu Dir Comin a Gam-gofrestrwyd) (Cymru) 2017

4.1 NODWCH – NID yw diweddaru cofnod yn Adran Hawliau'r Gofrestr Tiroedd Comin, er enghraifft i gofnodi perchennog/perchnogion newydd fferm a'u hawl i arfer hawl tir comin (h.y. pori), yn cael ei gynnwys yn y rheoliadau yma. Disgwylir rheoliadau pellach gan Lywodraeth Cymru i ganiatáu diweddaru'r gofrestr.

4.2 Gall unrhyw un wneud cais i gywiro cofrestrau tir comin a meysydd tref a phentref o dan adrannau 19, 22, neu Atodlen 2 Deddf 2006.

## 5. Dolen i Gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru a Ffurflenni Cais

5.1 https://llyw.cymru/tir-comin

## 6. Mapiau Ceisiadau

6.1 Bydd angen i ymgeiswyr gynnwys Map Ordnans cyfredol gyda'u ceisiadau ar raddfa o 1:2,500 neu 1:10,000. Rhaid i'r darn perthnasol o dir gael ei liwio ar y map mewn lliw nodweddiadol, yn ddelfrydol yn goch.

## 7. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Tâl Cais Cywiro

7.1 Gall ymgeiswyr, gan ddibynnu ar y cais y maen nhw'n ei wneud, orfod talu tâl cychwynnol a thaliadau pellach i alluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i gasglu cost lawn penderfynu'r cais.

7.2 Nid oes tâl ar gyfer ceisiadau o dan adran 19(2)(a) (cywiro camgymeriad gan yr awdurdod cofrestru) a 19(2)(c) (tynnu cofnod dyblyg i ffwrdd o'r gofrestr) gan fod y rhain yn cael eu hystyried fel camgymeriadau a gafodd eu gwneud gan yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin. Yn yr un ffordd, mae ceisiadau o dan Atodlen 2, paragraffau 2-5 hefyd am ddim gan fod penderfynu arnyn nhw yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried fel rhywbeth sydd er budd cyhoeddus a bydd costau'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin yn cael eu had-dalu gan Lywodraeth Cymru.

- Deddf Tiroedd Comin 2006
- (Rheoliadau Cywiro, Tir Comin Heb ei Gofrestru neu Dir Comin a Gam-gofrestrwyd) (Cymru) 2017
- 2017 Rhif 566 (W.135)

## 8 Tâl am Gais

| Y ddarpariaeth y gwneir y cais oddi tani neu ar ei chyfer. | Pwrpas y Cais | Tâl Cychwynnol am Gais |
|---|---|---|
| Adran 19 Deddf 2006 | Cywiriad at ddibenion adran 19(2)(a), (o gamgymeriad gan yr awdurdod cofrestru) | Dim tâl |
| Adran 19 Deddf 2006 | Cywiriad at y diben a ddisgrifir yn adran 19(2)(b) (urhyw camgymeriad arall) | £685.50 |
| Adran 19 Deddf 2006 | Cywiriad at ddiben a ddisgrifir yn adran 19(2) (c) (tynnu cofnod dyblyg i ffwrdd o'r gofrestr) | Dim tâl |
| Adran 19 Deddf 2006 | Cywiriad at ddiben a ddisgrifir yn adran 19(2)(d) (diweddaru manylion unrhyw enw neu gyfeiriad) | £685.50 |
| Adran 19 Deddf 2006 | Cywiriad at ddiben a ddisgrifir yn adran 19(2)(e) (ychwanegiad neu erydiad) | £638.50 |
| Atodlen 2, paragraff 2 neu 3 Deddf 2006 | Dim cofrestriad o dir comin neu faes pentref neu dref | Dim tâl |
| Atodlen 2, paragraff 4 Deddf 2006 | Tir diffaith maenor nad yw wedi ei gofrestru fel tir comin | Dim tâl |
| Atodlen 2, paragraff 5 Deddf 2006 | Maes tref neu bentref a gofrestrwyd ar gam fel tir comin | Dim tâl |
| Atodlen 2, paragraffau 6-9 Deddf 2006 | Dadgofrestru adeiladau neu dir arall a gofrestrwyd fel tir comin neu fel maes tref neu bentref | £855.50 |

Bydd pob cais cymhleth sy'n cynnwys atgyfeiriad at yr Arolygaeth Gynllunio yn arwain at gost o £89.00 yr awr am amser swyddogion yn ychwanegol

## 9. Cyfeirio at Arolygaeth Gynllunio Cymru

9.1 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, fel Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin, gyfeirio cais neu gynnig at Arolygaeth Gynllunio Cymru i'w benderfynu os oes un o'r canlynol yn berthnasol (rheoliad 15(2) a (3) Rheoliadau 2017):

- Mae gan yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin fuddiant yng nghanlyniad y cais neu gynnig ac mae'n annhebygol y byddai yna hyder yn ei ddidueddrwydd; neu

- Mae'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin wedi derbyn gwrthwynebiad i'r cais neu gynnig gan y rheiny â budd cyfreithiol yn y tir; ac yn y naill achos neu'r llall:
    - Mae'r cais neu gynnig yn ceisio ychwanegu tir at y gofrestr neu ei dynnu i ffwrdd;
    - Mae'r cais neu gynnig yn ceisio cywiro gwall yn nifer yr hawliau tir comin yn y gofrestr; neu
    - Mae'r cais neu gynnig yn cael ei wneud o dan Atodlen 2, paragraff 2 i 9 Deddf 2006.
- Mae ffioedd ychwanegol yn daladwy i'r Arolygaeth Gynllunio gan yr ymgeisydd: https://llyw.cymru/yr-arolygiaeth-gynllunio
- Os yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn penderfynu'r cais, efallai bydd yn angenrheidiol cynnal ymchwiliad neu wrandawiad cyhoeddus, a bydd y Cyngor yn ceisio ad-daliad gan ymgeiswyr am bob cost ychwanegol.